

Fersiwn		CY3
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Gorffennaf 2019

Y Berthynas Waith
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Employee Relations
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Cynllun Ymddeoliad **Hyblyg**

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Cynllun Ymddeoliad Hyblyg
Adran	Adran Adnoddau Dynol
Rhif Ffôn	01443 444503
Dyddiad cychwynnol cyflwyno'r polisi	Ebrill 2008
Swyddog Adolygu	Grŵp Adolygu'r Polisi
Dyddiad Adolygu	Medi 2016
Dyddiad yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Medi 2016
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Ebrill 2008	Richard Evans
Ionawr 2012	Richard Evans
Gorffennaf 2014	Richard Evans
Medi 2016	Grŵp Adolygu'r Polisi
Gorffennaf 2019	Grŵp Safonau'r Gymraeg AD
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol	Medi 2016
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	Gorffennaf 2014
Cabinet	Dd/B

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.

CYNNWYS

Datganiad Polisi	4
Ymddeoliad Hyblyg	4
Gweithdrefn Gwneud Cais	4
Gostyngiadau i Fuddion Pensiwn	5
Disgresiwn y Cyflogwr	5
Goblygiadau Pensiwn.....	6
Atodiad 1	7
Atodiad 2	8
Atodiad 3.....	9

1. DATGANIAD POLISI

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o ddewis a hyblygrwydd i weithwyr sy'n dymuno sicrhau cydbwysedd gwell rhwng eu bywydau a'r gwaith wrth i unigolion symud tuag at ymddeoliad. Efallai bydd gweithwyr yn dymuno gostwng nifer eu horiau gwaith neu ymgymryd â swydd ar radd is. Fodd bynnag, er mwyn eu galluogi nhw i wneud hyn, mae'n bosibl y byddan nhw'n dymuno cael mynediad at eu buddion pensiwn er mwyn ychwanegu at eu hincwm o ganlyniad i'r newidiadau yma.

2. YMDDEOLIAD HYBLYG

Tra bod yr oedran ymddeol arferol o 65 oed ddim yn bodoli erbyn hyn, caiff gweithwyr gael mynediad at eu buddion pensiwn yn 65 oed. Felly, bydd gweithwyr yn dal i gael gwybod am y gallu i ymddeol am 65 oed a chael mynediad at eu buddion, ond bydd y cyfrifoldeb ar y gweithiwr i roi gwybod i'r Cyngor i'r perwyl hwnnw. Os nad yw'r Cyngor yn cael gwybod adeg hynny, bydd y Cyngor yn tybio bod y gweithiwr yn dymuno gweithio tu hwnt i 65 oed.

Mae'r Cynllun Ymddeoliad Hyblyg yn digwydd pan fydd gweithiwr yn tynnu'i bensiwn ar unrhyw adeg ar ei ben-blwydd yn 55 oed neu ar ôl y pen-blwydd yma ond yn dymuno parhau i weithio ar gapasiti llai.

3. GWEITHDREFN GWNEUD CAIS

Dim ond gweithwyr sydd wedi cyrraedd eu hoedran ymddeoliad cynharaf ac sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS') ac sydd â chyfanswm o o leiaf tri mis o aelodaeth neu sydd wedi prynu gwerth trosglwyddo yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS') sy'n cael gwneud cais.

Byddai gofyn i'r ymgeisydd dderbyn gostyngiad parhaol yn ei oriau gwaith (neu radd) er mwyn cael ei ystyried. Byddai disgwyl i'r ymgeisydd wneud cais am ostyngiad mewn oriau gwaith o o leiaf 40% (neu rôl sydd â gradd is na gradd ei swydd ar hyn o bryd)

Byddai'r ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am y gostyngiad mewn buddion pensiwn (gweler paragraff 4 isod) mewn cysylltiad ag unrhyw gost am ryddhau'n gynnar.

Rhaid i'r gweithiwr anfon y Ffurflen Gais am Ymddeoliad Hyblyg (gweler Atodiad 1) at ei Gyfarwyddwr Gwasanaeth o leiaf tri mis ond nid mwy na chwe mis cyn y dyddiad ymddeoliad cynnar hyblyg. Bydd y cais yn cael ei drafod gyda'r Gyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a'r Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol (neu gynrychiolwyr enwebedig), cyfeirir atyn nhw fel Panel Disgresiynau RhCT a bydd y panel yn trafod:

- a fydd effaith niweidiol ar ddarpariaeth y gwasanaeth o ganlyniad i ostyngiad yn y swydd;

- fydd y treniadau ddim yn effeithio ar lwyth gwaith aelodau'r garfan;
- mae gwaith gwahanol ar gael ar y radd is;
- mae hwn yn opsiwn ariannol hyfyw o ran unrhyw effaith ar gyllideb y Cyngor.

Os yw'r panel o'r farn bod y cais o fudd i'r Cyngor yna bydd cais ar gyfer ffigyrau'r pensiwn yn cael ei wneud i'r Adran Bensiynau. Bydd yr Adran Bensiynau'n tynnu sylw at unrhyw gostau posibl i'r maes gwasanaeth.

Os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol, yna bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhoi gwybod i Adnoddau Dynol a fydd yn gwneud trefniadau fel bod modd i'r cais gael ei gyflwyno i'r Panel Rheoli Newid/Panel Disgresiynau RhCT.

Yn dilyn penderfyniad y panel, bydd Adnoddau Dynol yn:

1. Rhoi gwybod i'r gweithiwr
2. Ysgrifennu at y gweithiwr i gadarnhau manylion y gostyngiad mewn oriau
3. Rhoi gwybod i Adran y Gyflogres a'r Adran Bensiynau am ddyddiad y newid cytundebol ac a yw'r gweithiwr yn dymuno parhau i wneud cyfraniadau pensiwn (gweler pwynt 6 isod).

Bydd taliadau buddion pensiwn yn dod i rym o ddyddiad y gostyngiad mewn oriau neu radd. Mae angen parchu dewis iaith y gweithiwr yn ystod y broses yma. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig. Os bydd angen cynnal gwrandawriad, bydd yn cael ei gynnal yn newis iaith y gweithiwr (Cymraeg neu Saesneg).

4. GOSTYNGIADAU I FUDDION PENSIWN

Bydd aelodau'r cynllun sy'n dewis ymddeoliad hyblyg yn gweld gostyngiad yn eu buddion er mwyn gwneud taliadau cynnar. Bydd hyn yn cynnwys gostyngiad ar gyfer costau cyflogwr sy'n gysylltiedig â'r rhyddhad yma.

5. DISGRESIWN Y CYFLOGWR

Mae'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ('LGPS') yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad o ran a ddylai'r gostyngiadau fod yn berthnasol i'r holl fuddion neu ran o'r buddion. Os yw'r Cyngor yn cytuno, dan amgylchiadau eithriadol, i hepgor y gostyngiadau a fyddai'n berthnasol i fuddion yr aelod o'r cynllun, yna byddai angen i'r maes gwasanaeth perthnasol gynnwys costau ychwanegol yn y gronfa pensiwn. O ran disgresiwn, bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol.

6. **GOBLYGIADAU PENSIWN**

Er bod y gweithiwr wedi cael mynediad at ei fuddion pensiwn yn rhan o'r Cynllun Ymddeoliad Hyblyg, bydd modd iddo barhau i dalu cyfraniadau pensiwn os yw'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofnod pensiwn newydd wedi'i seilio ar y gostyngiad mewn oriau neu radd wrth symud ymlaen.

Dylai gweithwyr gadw mewn cof y bydd gostyngiad mewn oriau neu radd cyn yr oedran ymddeol arferol efallai yn effeithio ar fuddion salwch neu'n dileu eu swydd yn ogystal â thaliadau iawndâl os ydyn nhw'n ymddeol ar sail iechyd neu'n cael eu diswyddo.

Dylai gweithwyr ystyried y penderfyniad y bydd gofyn iddyn nhw'u gwneud cyn y dyddiad y bydd eu pensiwn yn daladwy a goblygiadau treth y penderfyniadau hynny. Cyfrifoldeb y gweithiwr fydd datrys unrhyw daliadau treth y mae gofyn i'r unigolyn eu talu gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (www.hmrc.gov.uk)

Ym mhob achos lle mae gweithwyr yn derbyn buddion pensiwn wrth weithio, rhaid iddyn nhw geisio cyngor ynghylch sut y bydd ymddeoliad hyblyg yn effeithio ar eu cyflog net a hawl i bensiwn. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel arfer, bydd pensiwn gweithiwr yn cael ei ostwng yn actiwaraid os yw'n cael ei dalu cyn i'r unigolyn gyrraedd 65 oed. Yn ogystal â hynny, efallai bydd unrhyw swydd sy'n cael ei chyflawni wrth dderbyn buddion pensiwn yn galw am gyfradd treth uwch. Efallai bydd y gweithiwr yn ceisio ffigyrau talu a chaiff ei annog i geisio cyngor gan yr Adran Bensiynau ac ymgynghorydd ariannol annibynnol cyn dilyn llwybr ymddeoliad hyblyg.

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

I:

**FFURFLEN GAIS Y CYNLLUN YMDDEOLIAD HYBLYG – UNIGOLYN DROS 55
OED AC SY'N AELOD O'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

FFURFLEN GAIS

Hoffwn i wneud cais am Ymddeoliad Hyblyg o dan ddarpariaethau'r cynllun uchod. Mae'r manylion sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer ystyried fy nghais wedi'u nodi isod.

Yn rhan o fy nghais, rydw i'n cydnabod bod rhaid i fi dderbyn naill ai gostyngiad parhaol mewn oriau (gostyngiad o o leiaf 40%) neu radd.

Rydw i'n cydnabod ei bod hi'n bosibl y budd fy mhensiwn yn gostwng ar sail rhyddhau'n gynnar ac unrhyw gostau gweithiwr sydd efallai'n berthnasol. Rydw i'n cadarnhau fy mod i'n dymuno:

Lleihau fy oriau contract cyfredol o i

Lleihau fy ngradd gyfredol

(* – ticiwch un o'r blychau uchod

Rydw i hefyd yn cadarnhau fy mod i / fy mod i ddim* yn dymuno gwneud cyfraniadau pensiwn yn dilyn lleihau fy oriau neu radd.

(* – dewiswch yr ateb perthnasol

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD:

RHIF STAFF:

DYDDIAD GENI:

DYDDIAD DECHRAU GWASANAETH DI-DOR:

GWEITHLE:

LLOFNOD Y GWEITHIWR:

DYDDIAD:

Ymddeoliad Hyblyg – Panel Disgresiynau RhCT

Enw'r Ymgeisydd:

Teitl Swydd/Maes Gwasanaeth:

Rhif Cyflog/Staff:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Rydyn ni wedi adolygu'r cais, ac ar sail y ffaith ei fod yn ariannol hyfyw o ran unrhyw effaith ar gyllideb y Cyngor, byddai'r Panel yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr bod modd symud ymlaen â'r cais cyn belled â bod y cais yn cwrdd â gofynion y maes gwasanaeth.

Bydd angen i'r Cyfarwyddwr wneud penderfyniad ffurfiol ynglŷn â chymeradwyo'r cais ai peidio trwy gwblhau Ffurflen Awdurdodi'r Prif Swyddog.

Awdurdodiad gan y Panel Disgresiynau

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Ymddeoliad Hyblyg – Awdurdod y Prif Swyddog

Enw'r ymgeisydd:

Teitl Swydd/Maes Gwasanaeth:

Rhif Cyflog/Staff:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Dydw i ddim yn cytuno i gefnogi'r cais yma

Rydw i'n cytuno i gefnogi'r cais yma (nodwch isod):

Gostyngiad mewn oriau, o i

Gostyngiad mewn gradd, o i

Trwy gefnogi'r cais yma, rydw i'n cydnabod:

- nad oes modd i elfennau'r swydd sy'n weddill gael eu llenwi
- nad oes modd cynnig oriau ychwanegol i'r ymgeisydd yn y dyfodol
- y bydd yr arbedion sy'n cael eu cronni o'r ymddeoliad hyblyg yn cael eu tynnu o'r gyllideb gyflog berthnasol.

Llofnod y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyfadran

Llofnod:

Dyddiad: